




# AIL-AGOR YSGOLION

## Gwybodaeth Ddiogelu ar gyfer rhieni a gwarchodwyr



### Teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol

- Os yn bosibl, dylai rhieni a phlant gerdded neu feicio i'r ysgol.
- Dim ond un oedolyn o bob teulu i ddod â neu gasglu pob plentyn / neu blant o'r ysgol os gwelwch yn dda.
- Yn anffodus, yn ystod y cyfnod hwn ni fyddwn yn gallu croesawu unrhyw rieni i mewn i adeilad yr ysgol nac i iard yr ysgol. Bydd aelod o staff ar ddyletswydd wrth iet yr ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol i gynorthwyo plant. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch neu e-bostiwch yr Ysgol.

### Gollwng a Chodi

- Fe fydd amseroedd yr Ysgol yn amrywio ychydig yn ystod y cyfnod yma.
- Os oes angen i chi gasglu'ch plentyn yn gynnar, ffoniwch yr ysgol a byddwn yn trefnu i'ch plentyn gwrdd â chi.
- Wrth ddod i ollwng neu gasglu plant, dilynwch y canllawiau pellhau cymdeithasol y tu allan i iet yr Ysgol os gwelwch yn dda.

### Swigod:

- Bydd pob dosbarth yn rhannu plant mewn grŵp 'Swigen' am y dydd,
- Bydd y strwythur swigen yn helpu i leihau nifer y bobl y mae plant a staff yn dod ar eu traws bob dydd.

### Gwisg

- Hoffwn bod y disgyblion yn gwisgo gwisg ysgol os yn bosib, ond nid oes rhaid.
- Anfonwch blant i'r ysgol mewn dillad glân BOB DYDD. Mae hylendid yn allweddol
- Gan y byddant yn yr awyr agored yn aml, bydd angen cot mewn tywydd garw. Bydd hwn yn cael ei gadw ar gefn eu cadair nid ar eu peg.
- Ni fydd plant yn dod ag unrhyw beth arall o'u cartref gan y bydd popeth yn cael ei ddarparu iddynt - h.y. dim bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu. Yr unig eithriadau yw cot, potel ddŵr a bocs cinio, ond rydym yn annog pob plentyn i archebu cinio Ysgol yn ystod y cyfnod yma os yn bosib. Llenwch y botel ddŵr cyn gadael cartref. Gellir ail-lenwi poteli o dapiau'r ysgol. Golchwch y poteli dŵr yn drylwyr / sterileiddio cyn y diwrnod ysgol nesaf.
- Mewn tywydd heulog, rhowch hylif haul i'ch plentyn cyn gadael y tŷ a sicrhewch fod ganddo/ganddi het.

### Hylendid a glendid:

- Bydd plant yn golchi eu dwylo wrth fynd i mewn i'w hystafell ddosbarth ac yn cael eu hatgoffa i olchi eu dwylo yn aml yn ystod y dydd.
- Bydd ystafelloedd dosbarth, toiledau a drysau yn cael eu glanhau'n rheolaidd, trwy gydol y dydd.

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gan pob plentyn fwrdd a chadair personol yn y dosbarth.</li> <li>• Bydd plant yn cael cyfle i gwblhau rhai tasgau dysgu cartref yn yr ysgol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd drysau a ffenestri ystafell ddosbarth yn cael eu cadw ar agor er mwyn cadw'r aer i symud.</li> <li>• Defnyddir nodiadau atgoffa gweledol, fel caneuon, posteri a fideos i atgyfnerthu'r neges a'r dull golchi dwylo.</li> <li>• Bydd biniau ar gyfer tyweli papur mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd hylendid</li> </ul>
<p><b>Pellter Cymdeithasol - Yn yr Ystafell Ddosbarth:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Er mwyn sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal; bydd byrddau ac offer i bob plentyn yn unigol yn y 'Swigen'.</li> <li>• Ni fydd staff a phlant y 'Swigen' mewn cysylltiad â phobl eraill yn ystod y dydd.</li> <li>• Dyrennir bwrdd a chadair eu hunain i blant yn y dosbarth.</li> <li>• Ni fydd y plant yn rhannu unrhyw offer nac adnoddau gyda phlant eraill.</li> <li>• Dim ond pan mae'r athro yn dweud y bydd plant yn symud o'u byrddau.</li> <li>• Ni fydd unrhyw amseroedd aros mewn rhesi i ddychwelyd i'r adeilad nac i'r dosbarth.</li> <li>• Bydd plant yn aros yn eu lle penodedig ar gyfer y diwrnod; onibai am amser egwyl a gweithgareddau corfforol, gyda'u grŵp bach eu hunain o blant.</li> <li>• Ni fydd gweithgareddau ysgol gyfan, fel gwasanaethau, yn cael eu cynnal.</li> </ul>	<p><b>Amser Cinio:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cinio yn cael ei weini yn yr ystafelloedd dosbarth wrth y byrddau unigol.</li> <li>• Hoffwn annog pob plentyn i archebu cinio Ysgol os yn bosib.</li> <li>• Bydd y cinio ysgol yn bryd poeth a phwdin. Bydd bwydlen newydd bob pythefnos. Bydd y gofrestr cinio ysgol yn cael ei chymryd bob bore. Dylech dalu am brydiau trwy'r trefniant ar-lein arferol. Bydd gofynion dietegol yn cael eu bodloni fel o'r blaen.</li> </ul> <p><b>Defnyddio ardaloedd y tu allan:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn awyddus bod y plant yn cael amser rheolaidd yn yr awyr agored, gyda'u 'Swigen' fach. Mae hyn yn dda i'w lles corfforol a meddyliol ar yr adeg hon.</li> <li>• Bydd amser awyr agored ar yr amserlen fel rhan o'u harferion dyddiol a hefyd ar gyfer amser egwyl ac amser cinio.</li> <li>• Pan fyddant yn yr awyr agored, dim ond gyda phlant o'u swigen eu hunain y bydd plant yn cymysgu, gan gynnal pellter cymdeithasol. Mae hyn yn golygu na fyddant yn dod i gysylltiad â phlant o ddsbarthiadau eraill.</li> <li>• Bydd plant yn golchi eu dwylo cyn mynd allan ac wrth fynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth.</li> <li>• Byddwn yn eu hatgoffa o bwysigrwydd pellhau cymdeithasol yn yr awyr agored hefyd.</li> </ul>

**Defnyddio toiledau:**

- Bydd plant yn golchi dwylo cyn defnyddio'r toiled.
- Byddant yn golchi dwylo ar ôl defnyddio'r toiled.
- Bydd y disgyblion yn sefyll 2m i ffwrdd os yn aros i fynd i'r toiled

**Cymorth Cyntaf:**

- Fe fydd staff cymorth cyntaf ar gael.
- Os mae plentyn yn teimlo'n sâl, rhaid iddynt roi gwybod i'w hathrawes.
- Bydd yr athro / athrawes yn dilyn y protocol priodol i symud y plentyn er mwyn lleihau'r risg i eraill.
- Mae ystafell wedi'i dynodi os bydd aelod o'r ysgol yn mynd yn sâl.
- Bydd angen i rieni gasglu plant sy'n mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol ar unwaith.

**Presenoldeb:**

- Bydd rhieni sy'n dymuno i'w plentyn fynychu darpariaeth Gweithiwr Allweddol yn defnyddio'r System Archebu fel arfer. Os gellir gofalu am blant gartref yn ddiogel, yna dylai hyn barhau i ddigwydd.
  - Fe fydd plant sy'n cysgodi neu'n byw gyda rhywun sy'n cysgodi, yn parhau i ddilyn y Rhaglen Dysgu Cartref.
  - Gall plant sydd yn byw gyda rhywun sydd mewn grŵp bregus fynychu'r ysgol, ond rhaid iddynt gynnal pellter cymdeithasol llym.
  - Ni fydd pwysau ar unrhyw riant i ddychwelyd ei blentyn i'r ysgol ac ni fydd dirwyon am beidio â mynychu. (Plis ffofiwch yr Ysgol, yn y ffordd arferol, os yw eich plentyn yn mynd i fod yn absennol. Os na chlywn ni wrthoch, fe ffofiwn atoch chi).
  - Peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol ar unrhyw ddiwrnodau heblaw'r rhai sydd ar yr amserlen.
- Er mwyn helpu i amddiffyn iechyd a diogelwch holl aelodau'r ysgol; gellir gofyn i unrhyw blentyn nad yw'n gallu dilyn canllawiau a chyfarwyddiadau aros gartref yn ystod yr amser hwn.

**Symptomau Covid19:**

- Ni ddylai'r plant fynychu'r ysgol os ydyn nhw wedi arddangos unrhyw symptomau yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.
  - Os oes gan blant unrhyw un o'r symptomau canlynol mae'n rhaid iddynt aros gartref a dylech gysylltu â'r ysgol i roi gwybod i ni:
- Peswch
  - Byr o anadl neu anhawster anadlu
  - Twymyn neu oerfel
  - Poen yn y cyhyrau
  - Gwddf tost
  - Colli blas neu colli'r gallu i arogli yn sydyn
- Os yw'ch plentyn yn arddangos symptomau Covid, cadwch ef/hi gartref am saith diwrnod, tra bod gweddill yr aelwyd yn hunan-ynysu am 14 diwrnod.
  - Cyfrifoldeb y rhieni yw hi i drefnu prawf cyn gynted â phosib.
  - Os oes achos cadarnhaol, yna bydd swigen gyfan yr ystafell ddisbarth gan gynnwys oedolion yn hunan-ynysu am 14 diwrnod.
  - Os yw prawf yn profi'n negyddol, bydd angen tystiolaeth o ganlyniad y prawf hwn ar yr ysgol cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol.
  - Os yw'n ymddangos bod achos sylweddol o'r firws yn yr ysgol, yna mae'n debygol y bydd yr ysgol yn cau eto a bydd glanhau dwfn yn dilyn.
  - Peidiwch ag anfon unrhyw blentyn i'r ysgol sydd yn sâl.

**Ymddygiad**

**Bydd polisi arferol yr ysgol ynglŷn ag ymddygiad yn berthnasol**

pan fydd yr ysgol yn ailagor. Yn ogystal â hyn, byddwn yn gweithredu polisi ymddygiad pandemig. Bydd hyn yn dilyn y rheolau fel y nodwyd ym Mholisi Llywodraeth Cymru ar bellhau cymdeithasol yn ystod y pandemig.

Efallai y gofynnir i ddisgyblion sy'n torri'r rheolau hyn yn gyson neu'n methu â dilyn gweithdrefnau a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch i aros gartref.

### Dysgu Cartref

- Mae'n bwysig bod dysgu gartref yn parhau i bob grŵp o ddysgwyr, yn yr un ffordd ag yn ystod y cyfnod cloi.
- Bydd yr athrawon yn parhau i osod gwaith ar gyfer dysgu cartref, a bydd plant yn cael cyfle i gwblhau rhywfaint o hyn yn yr ysgol.
- Bydd gwaith yn canolbwyntio ar atgyfnerthu ac adolygu gwybodaeth a sgiliau allweddol, er mwyn sicrhau na cholli'r dysgu hwn.
- Bydd gwaith hefyd yn parhau i flaenoriaethu lles emosiynol disgyblion.
- Rydym bob amser yn hapus i gael adborth adeiladol ynghylch dysgu gartref, gan rieni a gofalgwyr.
- Gan fod athrawon bellach yn dysgu yn y dosbarth yn amlach, efallai na fydd ymatebion i ymholiadau dysgu gartref mor aml. Byddwch yn amyneddgar gan y byddant yn ymateb.

### Cadw pellter Cymdeithasol

Byddwn ni fel ysgol yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei ddilyn bob amser, rydym yn fwy na ymwybodol mai hon fydd ein her fwyaf yn ôl pob tebyg. Mae plant yn blant, maen nhw'n naturiol chwilfrydig a byrbwyll. Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau trwy arddangos arwyddion a'u haddysgu mewn modd cadarnhaol o ddechrau ein hailagor. Fodd bynnag, mae angen nodi, nid ydym yn gallu addo y bydd pellhau cymdeithasol yn cael ei ddilyn bob amser, oherwydd bodau dynol ydym i gyd, a dim ond gwneud y gorau gallwn ei wneud.

### Diogelu

Os oes gennych unrhyw bryderon diogelu, cysylltwch â'r ysgol ar frys.

## **CWESTIYNAU A OFYNIR YN AML**

### **Rwy'n rhiant / gwarcheidwad sy'n cysgodi. Ydw i'n anfon fy mhlentyn / plant yn ôl i'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin?**

Os ydych chi'n rhiant neu'n warcheidwad cysgodol, nid oes disgwyl anfon eich plentyn / plant yn ôl i'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin. Ni fydd rhieni'n cael dirwy am gadw eu plentyn / plant gartref. Bydd y plant hyn yn parhau i gael eu cefnogi gan eu hysgolion mewn gwahanol ffyrdd.

### **Mae fy mhlentyn yn cysgodi. A fydd yn rhaid iddo ddychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin?**

Os yw'ch plentyn yn cysgodi ni ddylent ddychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin. Bydd plant sy'n cysgodi yn parhau i gael eu cefnogi gan eu hysgolion mewn gwahanol ffyrdd.

### **A fydd rhieni'n cael dirwy os nad ydyn nhw'n anfon eu plentyn i'r ysgol?**

Yn ystod yr amser hwn, ni fydd rhieni'n cael dirwy am gadw eu plentyn / plant gartref. Bydd y plant hyn yn parhau i gael eu cefnogi gan eu hysgolion mewn gwahanol ffyrdd.

### **Pa ddyddiad yw egwyl hanner tymor mis Hydref?**

Rydym yn gweithio i bennu'r dyddiad ar gyfer yr wythnos ychwanegol a'r egwyl hanner tymor mis Hydref a byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei gyfathrebu cyn gynted â phosib.

### **Beth yw'r drefn lanhau yn yr Ysgol?**

Yn yr un modd â'r angen i gynnal hylendid personol da i rwystro lledaeniad y firws, ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd glendid a chyfundrefnau glanhau priodol mewn ysgolion

Yn unol â'r canllawiau byddwn yn cadw at yr egwyddorion canlynol lle bynnag y bo modd:

- Bydd staff yn sychu unrhyw eitemau personol e.e. ffonau symudol, tabledi electronig, sbectol ddarllen, beiros ac ati gyda chadachau diheintydd / alcohol.
- Lle bo hynny'n bosibl, bydd drysau ystafell ddosbarth yn cael eu gosod ar agor er mwyn atal cyffwrdd â dolenni drysau, ac agorir ffenestri i ganiatáu i aer lifo trwy'r adeilad.
- Cyn mynd i mewn i ystafell ddosbarth, bydd pob disgybl ac aelod o staff yn golchi eu dwylo â sebon a dŵr yn drylwyr.
- Bydd cyn lleied â phosibl o ddodrefn ystafell ddosbarth, bydd eitemau eraill o offer sy'n weddill yn yr ystafell ddosbarth yn hawdd eu glanhau / diheintio.
- Bydd arwynebau defnydd cyson yn cael eu glanhau a'u sychu bob 2 awr.
- Dylai disgyblion a staff yn cadw pherchnogaeth o'u deunydd ysgrifennu ac ni fydd yn rhannu ag eraill.
- Bydd y staff yn tynnu dodrefn meddal, teganau meddal a theganau sy'n anodd eu glanhau oddi wrth y dosbarth.
  - Bydd yr holl deganau / offer yn cael eu glanhau ar ôl pob sesiwn defnyddio / diwedd chwarae cyn eu rhoi yn ôl mewn storfa.

### **A fydd dysgu ar-lein yn parhau i'n plant pan fydd ysgolion yn ailagor?**

Pan fydd ysgolion yn ailagor, bydd athrawon yn ôl yn yr ysgol bob dydd yn dysgu eu dosbarth eu hunain mewn grwpiau bach o blant (dim mwy na 8 ar unrhyw un adeg). Ar y diwrnodau pan fydd eich plant yn ôl yn yr ysgol byddant yn derbyn mor agos at addysg arferol â phosibl. Pan fyddant gartref ar y dyddiau eraill, byddant yn cael tasgau dysgu gartref i'w cwblhau, gan ymestyn y gwaith y maent wedi'i gwmpasu yn yr ysgol.

Bydd cymysgedd o ddulliau dysgu yn golygu y bydd athrawon hefyd yn darparu gwaith dysgu ar-lein i blant na allant ddod i'r ysgol gan eu bod wedi cael eu cyngori yn feddygol i gysgodi a phlant nad ydynt yn dychwelyd i'r ysgol eto gan nad yw rhieni'n teimlo bod yr amser yn hollol iawn.

### **A fydd brodyr a chwiorydd neu grwpiau cyfeillgarwch plant i mewn ar yr un pryd?**

Ni allwn sicrhau bod brodyr a chwiorydd neu grwpiau cyfeillgarwch penodol yn dod i'r ysgol ar yr un pryd. Ni wnaed hyn yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Awdurdod Lleol wedi ei gwneud yn glir nad ydyn nhw am i ysgolion geisio rheoli hyn. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod pob disgybl yn gallu 'dod i'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio ein gorau i sicrhau bod brodyr a chwiorydd yn yr ysgol gyda'i gilydd ac y bydd y grwpiau 'swigen' yn ystyried grwpiau cyfeillgarwch.

### **A fydd staff yn gwisgo masgiau a menig neu fathau eraill o PPE?**

Nid oes unrhyw ofyniad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i staff wisgo PPE, oni bai eu bod yn delio â digwyddiadau sy'n gofyn am gyswllt agos e.e. cymorth cyntaf, cynorthwyo gyda thoiledau ac ati. Yn yr achosion hyn, byddai'r prif fathau o PPE a ddefnyddir yn cynnwys ffedogau, gynau a menig tafladwy. Bydd y rhain yn cael eu newid yn syth ar ôl y weithred ofal neu'r dasg a gyflawnir.

Amddiffyn llygaid / wyneb e.e. bydd staff yn gwisgo mwgwd llawfeddygol neu darian / fisor wyneb llawn pan fydd risg o halogiad i'r llygaid, neu anadlu, rhag tasgu secretiadau (gan gynnwys secretiadau anadlol), gwaed, hylifau'r corff ac ysgarthion.

### **A yw'r ysgol yn anelu at fod yn ôl i drefn arferol ar ôl gwyliau'r haf?**

Ni allwn ddweud ar hyn o bryd. Rydym yn aros am ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru, yn union fel pob un arall. Mae'n ymddangos ein bod yn cael gwybodaeth gan y Gweinidog Addysg ar yr un pryd. Mae'n annhebygol y bydd yr ysgol ar agor yn hollol fel normal ym mis Medi, ond fe fydd dull graddol yn parhau i symud ni ymlaen, yn ol canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod addysg Lleol.

### **A fydd y plant yn cael chwarae y tu allan?**

Bydd, bydd digon o gyfleoedd i blant chwarae y tu allan. Er y bydd amseroedd egwyl ac amser cinio yn wahanol i'r arfer.

### **A oes disgwyl i ddisgyblion ddod â'u deunydd ysgrifennu eu hunain?**

Ni ddylid dod ag unrhyw offer o adre ond am botel ddŵr, cot a phecyn bwyd cartref i leihau trosglwyddiad firws posibl.

